



**UMPA**  
**Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**  
**18fed Mehefin 2021**  
**Yn rhithiol dros Zoom**

---

**Yn bresennol**

|   |  |
|---|--|
| Nate Pidcock (NP)                           | - Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr |
| Wojtek Salski (WS)<br>Ymddiriedolwr         | - Swyddog Cyfleoedd i Fyfyrrwyr UMPA ac    |
| Chloe Wilkinson-Silk (CWS)<br>Ymddiriedolwr | - Swyddog Materion Academaidd UMPA ac      |
| Ryan Beasley (RB)<br>Gadeirydd              | - Ymddiriedolwr Allanol UMPA a Dirprwy-    |
| Olymbia Petrou (OP)                         | - Ymddiriedolwr Allanol UMPA               |
| Debra Croft (DC)                            | - Ymddiriedolwr Allanol UMPA               |
| Alan Roberts (AR)                           | - Ymddiriedolwr Allanol UMPA               |

**Hefyd Bresennol**

|                    |   |
|--------------------|---|
| Trish McGrath (TM) | - Prif Weithredwr UMPA                              |
| Anmarie Evans (AE) | - Rheolwr Pobl a Llesiant UMPA (yn cymryd nodiadau) |

**GWEINYDDIAETH Y CYFARFOD**

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan CHW, ML, JA a DS.

**2. Datganiadau o Fuddiannau**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau

**3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 23ain Ebrill 2020.

**4. Materion sy'n Codi / Taflen Weithredu**

Ni chodwyd unrhyw faterion, triniwyd popeth yn eitemau'r agenda.

**STRATEGAETH**

**5. Cyllid: Cyfrifon Rheolaeth**

Rhoddodd NP drosolwg o'r cyfrifon Rheolaeth hyd at Fai 2021. Cafwyd trafodaeth ynghylch yr hyfforddiant swyddogion ychwanegol ac a fyddai o fudd i gyllido ar gyfer hyn blwyddyn ymlaen.

Trafododd ymddiriedolwyr y cyllideb yn gyffredinol a gofyn a allai cymhariaeth gael ei darparu blwyddyn ymlaen.

**Gweithredu - TM**

## **6. Adroddiad y Prif Weithredwr / Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

Rhoddodd TM drosolwg o'r gweithgareddau ers y cyfarfod diwethaf. Trafododd yr adroddiad Cyllid ac Arian, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Pobl, UMAber yn Dathlu, Etholiadau a Chyngor a Llesiant.

### **Nodwyd**

**Diweddariad KPI** – Ni adroddwyd gwahaniaeth mawr, er y gwelwyd mwy na'r disgwyl yn cymryd rhan na'r disgwyl.

### **Nodwyd**

## **7. Gwerthusiad y Prif Weithredwr**

Nododd RB ei fod yn hapus gyda chanlyniad Gwerthuso TM a'r holl waith caled a gyflawnwyd.

Bydd amcanion yn cael eu gosod a'u cyflwyno'r cyfarfod nesaf.

### **Nodwyd**

## **8. Adroddiad y Swyddogion**

Rhoddodd y Swyddogion grynodedb o'u gweithredoedd ers y cyfarfod diwethaf.

### **Nodwyd**

## **9. Y Cynllun Gweithredu**

Darparwyd y Cynllun Gweithredu i'r Bwrdd i'w nodi.

### **Nodwyd**

## **10. Cofnod Risgiau**

Estynnwyd diolchiadau i JA am ei gymorth gyda'r Cofnod Risgiau.

### **Nodwyd**

## **11. Polisi Cronfeydd Wrth Gefn**

Cafodd y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn ei ddiwygio:

Ni ellir gadael i gronfeydd wrth gefn gael eu lleihau yn is na £50K heb ganiatâd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Dylai'r polisi hwn gael ei adolygu bob yn dair blynedd o leiaf a'i fod yn gallu cael ei adolygu ar unrhyw adeg ar gais gan unrhyw Ymddiriedolwr i Gadeirydd y bwrdd.

### **Cymeradwywyd**

## **12. Mandad Banc Undeb y Myfyrwyr**

Cafodd y Llywydd etholedig, Sabina O'Donoghue a'r Swyddog Llesiant etholedig, Hannah Lunnon, eu cymeradwyo fel llofnodwyr newydd ar gyfer mandadau banc.

### **Cymeradwywyd**

## **13. Diolchiadau a Ffarwelio**

Diolchodd y Bwrdd i'r Swyddogion a'r Ymddiriedolwyr Myfyrwyr sy'n ymadael am eu

holl ymrwymiad a'u gwaith caled yn ystod blwyddyn anghyffredin o anarferol oherwydd y Covid a dymuno pob lwc gyda'r dyfodol iddynt.

**Nodwyd**

**14. Unrhyw fusnes arall**

Rhoddodd TM wybod i'r Bwrdd am fod Gwasanaethau Masnachol y Brifysgol wedi gofyn i newid enw'r gwasanaethau y maent yn eu darparu yn adeilad Undeb y Myfyrwyr i gynnwys 'UM' hy 'Siop UM'

Rhoddodd yr Ymddiriedolwyr sêl bendith i'r cais ar y sail bod yr SLA yn cael ei fonitro a bod yr UM yn gallu llywio sut mae'n cael ei redeg yn ffurfiol, yn cynnwys deunydd marchnata.

**15. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

I'w gadarnhau drwy Doodle i drefnu 4 cyfarfod nesaf y flwyddyn academiaidd newydd.

**Nodwyd**

**Diwedd y Cyfarfod**